Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYDBWYLLGOR

# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd ar: 12 Ebrill 2024**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon**

**Teitl: Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon 2023/24 y Cydbwyllgor**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2023/24.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol amcanol yr AHNE ar 31 Mawrth 2024.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r aelodau nodi rhagolwg diweddaraf y sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1) a'r cynnydd o ran y strategaeth gyllidebol gytunedig.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r AHNE a ragwelir ar gyfer 2023/24 fel y manylir yn Atodiad 1. Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir yw cyfraniad o'r cronfeydd refeniw wrth gefn o tua £20,000, ychydig yn llai na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb.

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllid a'n cyd-flaenoriaethau.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

   Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

   *Amherthnasol*

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

   Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

   Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2023/24.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

    Mae'r gyllideb yn dibynnu ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newid i lefel yr incwm hwn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

    Fel y nodir yn y gyllideb mae angen cefnogi'r gyllideb refeniw o'r gronfa refeniw wrth gefn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

    Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.